A oes rhaid i gyflogwyr ddarparu cyfarpar diogelu personol (PPE)?

Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol 1992.

Mae Rheoliad 4 yn nodi:
Rhaid i bob cyflogwr sicrhau y darperir cyfarpar diogelu personol addas i'w gyflogeion a allai gael eu hamlygu i risg i'w hiechyd neu eu diogelwch wrth weithio ac eithrio pan fydd y risg honno wedi'i rheoli'n ddigonol gan ffyrdd eraill sydd yr un mor effeithiol neu'n fwy effeithiol.

Mae'r canllaw cysylltiedig yn nodi:
Felly, dylai cyflogwyr ddarparu cyfarpar diogelu personol (PPE) addas a hyfforddiant i'w ddefnyddio i gyflogeion pryd bynnag y bydd risg i iechyd a diogelwch na allant gael eu rheoli'n ddigonol gan ffyrdd eraill.

Er mwyn darparu PPE i'w cyflogeion, mae'n rhaid i gyflogwyr wneud mwy na chael y cyfarpar ar y safle. Mae'n rhaid i gyflogeion sicrhau bod y cyfarpar ar gael yn hawdd, neu o leiaf bod cyfarwyddiadau clir lle gellir cael gafael ar y cyfarpar.

Yn rhinwedd Adran 9 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, ni ellir codi tâl ar weithiwr am gyfarpar diogelu personol a ddefnyddir yn y gwaith yn unig. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn nodi: "Ni fydd unrhyw gyflogwr yn codi tâl neu ganiatáu i godi tâl ar unrhyw gyflogai mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir neu a ddarperir yn unol ag unrhyw ofyniad penodol o'r darpariaethau statudol perthnasol". Mae Adran 9 yn gymwys i'r Rheoliadau hyn oherwydd eu bod yn gosod 'gofyniad penodol' - h.y. darparu cyfarpar diogelu personol.

Cyhoeddiadau perthnasol
Personal protective equipment at work: guidance on regulations, L25 (ISBN 0717604152 – ar gael gan HSE Books)

- **Canllaw byr i Reoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith – taflen am ddim** [101 kb]